Achub dy groen!

Cadernid

Am ganrifoedd bu'r anifeiliaid yn byw'n hapus efo'i gilydd. Ond, un diwrnod trist iawn daeth dyn heibio iddynt. Roedd ganddo rywbeth rhyfedd iawn yn ei ddwylo. Gyda'r teclyn hwn lladdodd un o'r ceirw. O hynny ymlaen dyna oedd hanes y dyn, lladd, rheibio a dinistrio.

Daeth yr anifeiliaid at ei gilydd i drafod y mater. Siaradodd yr eliffant i ddechrau gan mai ef oedd y mwyaf o'r holl anifeiliaid. "Mae gen i ffordd dda i ddychryn pobl. Byddaf yn ysgwyd fy nghlustiau ac yn rhuthro amdanyn nhw." "Ymosod yn syth fyddaf i" meddai'r teigr, "a neidio ar gefn y bobl gan eu cnoi gyda'm dannedd miniog."

Siaradodd un o'r ceirw yn ddistaw, "Rhedeg yn gyflym fydda i pan fyddai'n gweld pobl. All neb yn y byd byth fy nal i."

"Mae'n gas....s....s....s gen i bobl," hisiodd y neidr, "Mae gen i ffordd well na'r un ohonoch chi. Byddaf yn cyrlio fy hun yn y gwair ac yna pan fydd pobl yn agosáu byddaf yn eu brathu. Mae fy mrathiad i'n wenwynig ac yn farwol."

Agorodd y crwban ei lygaid yn araf, "Rydw i wedi adeiladu tŷ i mi fy hun. Pan fyddaf yn gweld perygl byddaf yn mynd i mewn i'm tŷ ar f'union. Byddaf yn teimlo'n saff ac yn gysurus yn fy nhŷ."

Ysgydwodd y ci ei gynffon, "Mae gen i ffordd well o lawer o drin pobl. Yr unig ffordd i drin pobl ydi ceisio ufuddhau iddyn nhw. Rydw i yn aros yn eu cartrefi. Er fy mod wedi fy nghaethiwo eto i gyd rydw i'n cael aelwyd gynnes a digonedd o fwyd."

Ar y gangen uwchben roedd y camilion yn gwrando'n astud. "Rydych i gyd yn ffyliaid," meddai, "yn sôn am eu dychryn, ymosod arnyn nhw, rhedeg i ffwrdd oddi wrthyn nhw neu geisio bod yn ffrindiau efo nhw. Does dim rhaid i chi wneud yr un o'r pethau hyn. Beth am i chi wneud fel y byddai i'n gwneud. Mi fyddaf yn troi fy lliw ar gyfer pob achlysur. Dim ots

gen i faint o weithiau fyddai i'n troi fy lliw. Dim ots gen i sut y byddai i'n edrych. Os ydych chi eisiau bywyd braf yna newidiwch eich lliw i arbed eich croen! Does dim rhaid i chi wneud dim byd arall.

O Dduw, oes raid i mi droi fy lliw bob amser? Oes yna adeg pan mae'n rhaid i mi sefyll yn gadarn? Amen.

- Beth yw neges y stori hon?
- Pa agwedd ddylen ni gymryd pan fyddwn yn cael ein beirniadu gan eraill?